

NEWYDDION TAI LLOCHES

MAE'N CYNLLUNIAU TAI LLOCHES YN BLODEUO!

Llongyfarchiadau i'r holl denantiaid a oedd ar y rhestr fer yng nghystadleuaeth arddio'r llynedd. Dyfarnwyd y wobwr gyntaf i gynllun Maesteg ym Mhentwynmawr yn y categori Gardd Gymunedol Tai Lloches Gorau. Cafwyd gryn argraff ar y beirniaid gyda'r ymdeimlad o gymuned yn y cynllun buddugol, gyda nifer o denantiaid yn cymryd rhan weithredol yn yr arddio, ynghyd â'i ddefnydd da

o le a lliw. Cwrt Alexandra, Ynysddu ddaeth yn ail gyda Cwrt-y-Castell o Bontywaun yn drydydd. Cyhoeddwyd yr enillwyr ar 14eg Medi yn ystod te prynhawn yn yr ystafell wydr yn Llancaiach Fawr, Nelson. Cyflwynwyd y gwobrau gan y Cyng. Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor dros Gartrefi a Lleoedd, a Fiona Wilkins, Rheolwr Tai Sector Cyhoeddus Cartrefi Caerffili.

Our Older Person's Housing Team has a new contact telephone number. You can now reach them on **01443 811431**.



Yr ardd fuddugol ym Maesteg.



Pat Perry o Gwrt-y-Castell.



Mona Whittaker o Gwrt Alexandra.



Fiona Wilkins yn cyflwyno gwobr i denantiaid.

DIWEDDARIAD SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC)

Mae rhaglen gwelliant Safon Ansawdd Tai Cymru yn symud ymlaen yn dda ac ar darged ar gyfer ein dyddiad cwblhau 2020.

Santes Clare yn Rhymni oedd y cynllun cyntaf i dderbyn holl gwelliannau mewnol ac allanol SATC. Cwblhawyd gwaith allanol y cynllun ym mis Hydref y llynedd. Rhannodd Mr Bill Grandin, tenant yn Santes Clare, ei brofiad o'r gwaith; sydd yn cynnwys toeau a ffenestri newydd. Dywedodd Bill: "Roeddwn i'n falch iawn gyda'r gwaith ac roedd heb ei fai. Roedd y bechgyn bu'n gweithio yma yn werth y byd, ac roedd Liz, y Swyddog Cyswllt Tenantiaid, yn wych."

Ym mis Rhagfyr 2017, cwblhawyd hefyd yr holl waith oedd yn 'Clôs Gibbs' a 'Lle Palmer' yng Nghoed Duon. Gwaith oedd yn cynnwys toeau newydd,

ceginau, ystafelloedd ymolchi a llwybrau allanol. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn Nhŷ Bedwellte, Cefn Fforest; cychwynodd y gwelliannau i'r cynllun 'o dan un to' hwn ym Mai 2017 fydd yn golygu y bydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd wedi'u gosod ym mhob fflat, ynghyd â system wresogi newydd a gosod lifft. Bwriedir cwblhau'r gwaith ym Mawrth eleni.

Mae gwaith hefyd yn mynd Rhagddo yng Nghwrt Horeb, Trinant lle mae llwybrau yn y cynllun wedi eu hadnewyddu yn ddiweddar.

Mae gwelliannau mewnol wedi eu cwblhau yn Y Glyn, Maes-y-cwmwr ac adnewyddu'r to yn cymryd lle ar hyn o bryd yn y cynllun. Rydym hefyd ar hyn o bryd yn gweithio yn Waun Rhydd, Gelligaer a The Willows, Bedwas;

disgwylir i'r ddau gynllun gael eu cwblhau ym Mawrth eleni. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen yng Nglwysyfi, Tredegar Newydd a Glynderw, Parc Churchill.

Cynlluniau sydd i gychwyn yn ystod 2018 yw Cwrt Gwyddon a The Ranks yn Abercarn, Golygfa'r Coetir yng Nghwrmfelin-fach, Tŷ Mynyddislwyn ym Mhontllan-fraith, Maesteg ym Mhenthwynmawr, Oaklands a Chwrt Santes Gwladys ym Margod.

Rydym hefyd yn parhau gyda boreau coffi a digwyddiadau te prynhawn mewn cynlluniau lle mae arolygon ar fin dechrau. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig cyfle i chi gwrdd â'r tîm sy'n gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen SATC mewn tai lloches, ac i ofyn unrhyw cwestiynau sydd gennych am y gwaith.



Santes Clare, Rhymni.



Mr Grandin yn ei gartref.



DIOGELWCH TÂN

Diogelwch wrth goginio

- Cymerwch sosbannau oddi ar y gwres neu droi nwy / trydan i ffwrdd pan na fydd unrhyw un yn bresennol.
- Peidiwch â choginio os ydych chi wedi bod yn yfed alcohol neu'n cymryd meddyginiaeth.
- Diffoddwch y popty pan fyddwch chi wedi gorffen.
- Diffoddwch socedi.
- Caewch drws y gegin.

Sosbannau sglodion

- Peidiwch byth â llenwi sosban sglodion mwy na'i thraean yn llawn o olew.
- Ystyriwch defnyddio ffrïwr saim dwfn wedi'i reoli'n thermostatig.
- Peidiwch byth â gadael eich coginio heb oruchwyliaeth. Hyd yn oed os yw'r ffôn neu gloch y drws yn canu. Cofiwch - bydd tanau'n cychwyn pan fydd rhywbeth wedi tynnu eich sylw.

Os bydd tân sosban sglodion:

- Ffoniwch 999 am y gwasanaeth tân ac achub ar unwaith.
- Peidiwch â'i mentro hi.
- Sicrhewch lwybr dianc clir.
- Peidiwch byth â symud y sosban.
- Diffoddwch y gwres (os yw'n ddiogel i wneud hynny).
- Peidiwch byth â defnyddio dŵr ar dân sosban sglodion gan y bydd hyn yn achosi pelen dân.

Diogelwch trydanol

- Peidiwch byth ac atgyweirio neu ailgysylltu ceblau.
- Peidiwch â rhedeg ceblau o dan y carped.
- Cadwch geblau i ffwrdd oddi wrth y popty.
- Peidiwch byth â defnyddio mwy nag un addasydd fesul soced.
- Gwnewch yn siŵr bod tostwyr, microdonnau, sychwyr gwallt a thegellau wedi'u plygu yn eu soced eu hunain ac na chaiff eu defnyddio gydag addasydd.

Silindrau ocsigen

- Storiwch silindrau ocsigen yn sefyll yn unionsyth.
- Peidiwch â storio ger ffynhonnell wres; storiwch mewn ardal gydag llif aer da.
- Peidiwch â defnyddio olew neu ireidiau gerllaw offer ocsigen.
- Sicrhewch fod y cwmni sy'n cyflenwi'r ocsigen yn arolygu offer yn rheolaidd.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw peiriant drydanol sydd â modur (e.e. razor trydan, peiriant sychu gwallt) ger silindr ocsigen.
- Peidiwch â defnyddio unrhywbeth llosgadwy tra'n defnyddio ocsigen.
- Peidiwch byth â smygu neu caniatáu i eraill smygu ger ocsigen.

2018 Teithiau

- 14/03/18 - Siopa 'Labels', Y Rhosan ar Wy
- 21/03/18 - Aberhonddu
- 05/04/18 - Canolfan Arddio Caerffili a The Red Kite
- 11/04/18 - Weston
- 18/04/18 - Symonds Yat (East)
- 03/05/18 - Parc y Rhath a The Nine Giants
- 09/05/18 - Bae Caerdydd
- 23/05/18 - Porthcawl
- 07/06/18 - Castell Cil-y-Coed a The Castle Inn
- 13/06/18 - Dinbych-y-Pysgod
- 20/06/18 - Sain Ffagan
- 05/07/18 - Friars Walk, Casnewydd
- 11/07/18 - Ynys y Barri
- 18/07/18 - Y Mwmbwls, Abertawe
- 02/08/18 - Caer a Baddonau Rhufeinig Caerllion a The Ship Inn
- 08/08/18 - Weston
- 22/08/18 - Caerfaddon
- 06/09/18 - Canolfan Siopa Cwmbrân a The Harvester
- 11/09/18 - Bourton-on-the-Water
- 04/10/18 - Parc Gŵyl Glyn Ebwy a Brewers Fayre
- 09/10/18 - Y Fenni
- 14/11/18 - Canolfan Siopa McArthur Glen a'r Bont-Faen
- 05/12/18 - Ffair Nadolig Caerloyw

Os oes unrhyw deithiau ychwanegol hoffech chi fynd arnynt cysylltwch â Liam Bouse, Cydlynnydd Gweithgareddau, a chewch ei gymorth i'w trefnu.

Taliadau gwasanaeth ar gyfer tai lloches

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Pam rydym ni'n talu cymaint am gynnal a chadw tir?

Beth ydyw'n cwmpasu?

Mae'r tâl hwn ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ar y tir o fewn ffiniau eich cynllun. Mae'n cynnwys torri'r glaswellt yn wythnosol o'r dydd Llun cyntaf ym mis Ebrill a 'chyn-dorri' ychwanegol ym Mawrth, tocio llwyni bob blwyddyn a thorri gwrychoedd ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob cynllun. Bydd gwaith arall penodol yn dibynnu ar beth sydd yn bresennol mewn unrhyw gynllun penodol, er enghraifft gwelyau blodau. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu'r dadansoddiad o daliadau, manyleb ac amllder cynnal a chadw tiroedd ar gyfer yr holl gynlluniau tai lloches a byddwn yn eich diweddarau ymhellach unwaith y bydd y wybodaeth hon ar gael. Efallai y bydd angen ymgynghori pellach os oes angen, neu y gofynnir am, unrhyw newidiadau.

Nid yw'r Swyddog Tai Lloches bob amser ar y safle felly beth yn union yr ydym yn talu amdano?

Mae'r tâl hwn yn cwmpasu pob costau sydd ynghlwm ar gyfer y Gwasanaeth Tai Lloches. Bydd gan bob cynllun aelod o staff ar y safle bob dydd. Mae Swyddogion Tai Lloches yn darparu cefnogaeth symudol am o leiaf 2 gynllun mewn diwrnod. Bydd yr oriau yn amrywio o gynllun i gynllun yn dibynnu ar y staff sydd ar gael ar unrhyw adeg benodol. Mae rota y Swyddog Tai Lloches yn cael ei harddangos ym mhob cynllun i roi gwybod i denantiaid am y staff ar gyfer bob wythnos. Mewn argyfwng yn ystod oriau gwaith, gellir galw am Swyddog Tai Lloches i fynychu cynllun os oes angen.

Mae gwasanaeth Llinell Ofal 24 awr hefyd yn rhan o'r gwasanaeth tai lloches ac yn absenoldeb Swyddog Tai Lloches ar y safle, mae gan pob tenant fynediad i ganolfan monitro ymateb y Llinell Ofal ar gyfer cymorth a chefnogaeth.

Beth yw cwmpas 'Cyfathrebu TG'?

Codir tâl am y ffôn a darpariaethau cyfrifiadurol yn y cynllun i alluogi a chefnogi y Swyddogion Tai Lloches i ymgymryd â'u dyletswyddau beunyddiol.

Beth yw'r tâl gweinyddol o 10%?

Beth ydyw a beth mae'n ei gwmpasu?

Mae hyn yn cwmpasu cost rheoli a darparu'r broses tâl am wasanaeth i denantiaid.

Pam mae tâl am y drwydded deledu pan mae tenantiaid eisoes yn talu eu hunain? Os ydw i dros 75 oed pam mae'n rhaid i mi dalu, mae'r gyfraith yn datgan nad oes raid i bobl dros 75 oed dalu?

Codir tâl trwydded deledu ar gyfer y teledu yn y lolfa gymunedol yn eich cynllun. Nid yw'ch trwydded eich hun a'r trefniant dros 75 ar gyfer eich eiddo unigol yn berthnasol i'r cyfleuster teledu cymunedol.

A fydd y tâl gwasanaeth yn cynyddu'r flwyddyn nesaf?

Bydd y taliadau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar y gwariant ym mhob un cynllun penodol a gall gynyddu neu ostwng mewn unrhyw flwyddyn yn y dyfodol. Cyfrifir y taliadau yn seiliedig ar wariant gwirioneddol o'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'r Cyngor yn gwneud elw, ac mae'r taliadau ond yn adennill cost y gwasanaeth. Mae swyddogion yn archwilio'r

gwariant drwy gydol y flwyddyn i fonitro'n agos am unrhyw costau ormodol. Bydd taliadau am eitemau sy'n denu cost uwch yn ymledu dros nifer o 'flynyddoedd byw' i gadw'r taliadau blynyddol yn is i denantiaid.

Nid wyf yn defnyddio'r lolfa gymunedol, felly pam ydw i'n talu tuag ato?

Codir tâl ar denantiaid am y gwasanaethau a ddarperir yn y cynllun maen nhw'n byw ynddo. Ni allwch ddewis peidio â thalu am dâl gwasanaeth am wasanaeth sydd ar gael yn eich cynllun oherwydd nad ydych chi'n ei ddefnyddio.

Pam mae'r tâl glanhau mor uchel?

Mae'r cynlluniau wedi'u hasesu'n unigol ar gyfer y nifer o oriau y mae eu hangen i ddarparu gwasanaeth glanhau digonol yn ôl maint a dyluniad y cynllun. Cyfrifir y costau glanhau fesul nifer y dyddiau ac oriau mae'r glanhawr yn gweithio yn eich cynllun. Mae'r taliadau'n cynnwys yr holl deunyddiau glanhau cysylltiedig ac unrhyw ofynion glanhau arbennig.

Pam mae'r taliadau wedi eu capio am ddwy flynedd?

Er bod rhai tenantiaid wedi gweld gostyngiad mewn taliadau, fe berodd hefyd fod rhai tenantiaid wedi gweld cynnydd yn y costau mewn rhai o'r cynlluniau. Awgrymwyd felly y byddai trefniadau trosiannol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf yn dilyn cyflwyno y newidiadau, i gynorthwyo a chefnogi tenantiaid presennol yn y cynlluniau sydd â'r taliadau uchaf i addasu i'r newidiadau.

Neges gan Liam Bouse, Cydllynydd Gweithgareddau

Rwy'n falch o ddweud mai blwyddyn brysur iawn ar gyfer tenantiad tai lloches oedd 2017, gydag amrywiaeth o wahanol gweithgareddau a digwyddiadau yn cael eu cynnal mewn cynlluniau ledled y fwrdeistref sirol.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Codwyd £3,518 am 8 o wahanol elusennau, gan gynnwys Macmillan, Cymdeithas Strôc a Chymdeithas Alzheimer.
- Trefnwyd 46 o deithiau yn cynnwys ymweliadau i Bourton-on-the-Water, Bae Caerdydd ac Ynys y Barri (roedd hyn 18 yn fwy o deithiau na llynedd).
- Lansio'r 'Cwis Tai Lloches' Llongyfarchiadau i Mrs Williams o The Willows ym Medwas a gafodd y sgôr uchaf gyda 45

allan o 50 o atebion yn gywir! Roedd hefyd gwobrau i bawb a gymerodd rhan; roedd 12 o wobrau ar gael gan gynnwys taith o amgylch Llancaiach Fawr.

- Mae nifer o gynlluniau wedi cynnal sgysiau am ystod o bynciau, gan gynnwys troseddau ar garreg y drws a diogelwch yn y cartref gan yr Heddlu, cyngor ar atal tanau gan y Gwasanaeth Tân a gwybodaeth ar ddementia gan y Gymdeithas Alzheimer's.
- Cyflwynodd elusen Mind Cymru gwrs 6 wythnos am iechyd meddwl a lles.
- Perfformiadau Pasg a Nadolig gan gôr ysgol.
- Sesiynau mwythau yng Nghwrt-y-Castell a Chwrt Santes Fair.



Digwyddiad Cracers a Throsedd yn Lle Hyfryd, Pen-yr-heol.

Gellir gweld rhestr o deithiau ar gyfer 2018 dros y dudalen a hefyd ar hysbysfwrdd cymunedol eich cynllun. Os hoffech chi ymweld â rhywle nad yw ar y rhestr, rhowch wybod i mi a byddaf yn ceisio, lle bynnag y bo modd, i redeg teithiau ychwanegol.

Rwyf bob amser yn agored i syniadau newydd ar gyfer gweithgareddau neu ddigwyddiadau felly rhowch alwad imi ar 01443 866449 neu e-bostiwch bousel@caerffili.gov.uk

Tenantiaid wedi eu cynorthwyo gan ein tîm Cymorth Hyblyg

Yn ystod 2017, agorodd ein tîm Cymorth Hyblyg 103 o achosion newydd a chau 92 o achosion wedi'u cwblhau lle roedd anghenion cymorth tenantiaid wedi'u bodloni, neu roeddent wedi symud i eiddo mwy addas neu nad oeddent â chysylltiad bellach gyda'r gwasanaeth. Gweithiodd y tîm yn gyson gyda thua 250 o gleientiaid.

Mae'r tîm Cymorth Hyblyg yn darparu ystod o gymorth i denantiaid gan gynnwys helpu i gwblhau ceisiadau trosglwyddo tai ar-lein, gwneud cais am addasiadau, hawliadau budd-daliadau a cheisiadau ar gyfer grantiau.

Mewn un achos, gofynnwyd i'r tîm ymweld â gwraig yr oedd ei phartner wedi bod yn hawlio budd-daliadau ar ei rhan, a phan adawodd yr eiddo fe'i gadawyd heb unrhyw arian. Yn y lle cyntaf, darparodd y tîm Cymorth Hyblyg bws argyfwng i'r tenant gan nad oedd bwyd yn yr eiddo. Wedyn fe'u cefnogodd hi drwy hawliad am Lwfans Cymorth Cyflogaeth (ESA) a chadw cwmni iddi yn yr asesiad gallu i weithio. Pan gwblhawyd hyn, roedd y tîm yn gallu hawlio budd-dal tai, taliad tai dewisol a HelpU am ostyngiad mewn cyfraddau dŵr. Roedd y tenant hefyd wedi cael cefnogaeth i hawlio Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) ynghyd â budd-dal anableded difrifol. Yn gyfan gwbl, ers gweithio gyda'r tenant hwn, roedd y tîm Cymorth Hyblyg yn gallu cynyddu ei buddion o ddim i £274 yr wythnos. Mae hi bellach yn gallu talu ei rhent ac mae cynllun talu wedi ei sefydlu er mwyn iddi dalu dyledion hir dymor.

Am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan ein Tîm Cymorth Hyblyg, ffoniwch 01443 811425 neu ebost CymorthHyblyg@caerffili.gov.uk

Bywyd o'r newydd i Colin

Mae Colin Hill, tenant yn Nhŷ Bedwellte yng Nghefn Fforest, wedi gwednewid ei fywyd ers iddo symud i dai lloches.

Cyn symud i Dŷ Bedwellte, ym mis Tachwedd 2015, bu Colin yn byw gyda'i rhieni ym Mhengar. Ar y cychwyn, roedd byw'n annibynnol yn her i Colin, ond dywedodd Mair Jones, ei Swyddog Tai Lloches, wrthym faint mae ei hyder a'i sgiliau wedi tyfu dros yr amser hwn.

Mae Colin nawr yn Hyrwyddwr Cymunedol Anabledd Dysgu ar gyfer Gwasanaeth Ambiwylans Cymru ac yn ffotograffydd brwd. Yn ddiweddar cwblhawyd gwelliannau SATC mewnol yn ei fflat ac roedd Colin wedi mwynhau'n fawr treulio amser gyda'n gweithlu!

Os oes gennych unrhyw luniau neu atgofion yr hoffech eu rhannu yn y cylchlythyr cysylltwch â Kelsey Watkins, Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu Tenantiaid, ar 01443 864262 neu drwy e-bostio watkik1@caerffili.gov.uk



Chwiliad geiriau

W	M	L	P	G	R	T	A	T	U	Y
A	N	A	T	R	G	Y	P	Y	N	S
U	W	A	O	O	R	M	E	I	D	G
N	R	Z	A	V	E	E	N	S	Y	W
Rh	L	W	K	E	E	L	C	A	G	Y
Y	T	P	A	B	N	I	E	F	L	Dd
Dd	O	A	K	L	A	N	D	S	Y	G
Dd	N	Q	R	E	C	T	R	U	N	W
D	I	Y	B	D	R	S	A	P	A	Y
O	B	N	S	O	E	G	O	O	I	N
P	E	T	E	W	S	I	L	L	T	O
A	G	Y	O	P	E	G	L	Y	A	D
D	G	O	O	D	I	N	U	R	N	D

Rydym wedi cuddio enwau 6 o gynlluniau tai lloches yn y chwiliad geiriau.

A allwch chi ddod o hyd i'r Cynlluniau a restrir isod.

Geiriau i ddod o hyd iddynt:

Greenacres

Oaklands

Ty Isaf

Waurhydd

Y Glyn

Ysgwyddgwyn